



Gorffennaf 15, 2013

Diwedd Tymor yr Haf 2013 yn Ysgol Tryfan

Annwyl Riant / Warcheidwad

Ar ddiwedd blwyddyn ysgol arall brysur hoffwn ddymuno'n dda i'n disgyblion a'u teuluoedd dros wyliau'r haf. Hoffwn hefyd ddiolch o galon i chi am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.

Heddiw bydd disgyblion blynyddoedd 7 – 10 wedi derbyn adroddiad llawn ar eu cyrhaeddiad yn ystod y flwyddyn ac mae disgyblion blwyddyn 9 wedi derbyn eu Lefelau Cwricwlwm Cenedlaethol ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3. Eleni hefyd am y tro cyntaf bydd disgyblion blynyddoedd 7 – 9 yn cael adroddiad dwyieithog yn adrodd ar eu perfformiad yn y Profion Cenedlaethol Darllen (Cymraeg a Saesneg) a Rhif. Gobeithiaf fod pob disgybl yn llwyddo i gael rhyw foddhad o'r adroddiad am yr hyn a gyflawnwyd eleni – ond eto'n gallu gosod targedau clir ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Hoffwn eich hysbysu fel rhieni na fyddwn yn Ysgol Tryfan yn agor ein drysau i ddisgyblion eleni tan **ddydd Mercher y 4ydd o Fedi 2013**. Mae hyn yn wahanol i nifer o ysgolion cynradd y dalgylch ac ymddiheuraf os yw hyn yn peri anhawster i rai rhieni. Ond fel ysgol sy'n wynebu Arolygiad Estyn yn ystod y tymor nesaf (dyddiad heb ei gadarnhau) rydym wedi penderfynu defnyddio dau ddiwrnod o Hyfforddiant Mewn Swydd ar ddechrau'r tymor. Rhennir y Calendr Ysgol yn llawn â chi ym mis Medi. Bydd y Calendr Ysgol hefyd wedi cael ei ddiweddarau'n fuan ar wefan yr ysgol. Manteisiaf ar y cyfle hwn i'ch annog i fynd at ein gwefan - www.ysgoltryfan.org – er mwyn cael blas o fywyd yr ysgol. Ceir yma hefyd lawer o wybodaeth ddefnyddiol i chi yn yr adran Rhieni a bydd yr adran Newyddion a'r Albwm Lluniau yn arbennig o ddiddorol i bawb sy'n ymddiddori yn yr ysgol.

Er gwybodaeth i chi fel rhieni hefyd rwy'n atodi'r dudalen berthnasol allan o'n Llyfr Cartref Ysgol sy'n manylu ar ein gwisg ysgol. Mae'r dudalen hon yn manylu ar ein disgwyliadau ac unwaith eto hoffwn erfyn arnoch fel rhieni i sicrhau fod eich plant yn dychwelyd atom ym mis Medi mewn gwisg ysgol briodol gan gydymffurfio â gweddill ein gofynion hefyd. Yn arbennig hoffwn dynnu sylw at y disgwyliad fod yr esgidiau yn rhai du plaen.

Cyn cloi hoffwn gadarnhau y bydd canlyniadau arholiadau Uwch Gyfrannol a Safon Uwch yn cael eu cyhoeddi ar fore Iau Awst 15 o 8.00 y bore ymlaen. Bydd canlyniadau TGAU ar gael i flwyddyn 11 wythnos yn ddiweddarach ar ddydd Iau Awst 22 am 8.00 unwaith eto. Mae nifer o ddisgyblion blwyddyn 10 hefyd erbyn hyn yn disgwyl canlyniadau TGAU ac oherwydd hynny eleni rydym yn gwahodd disgyblion 10 hefyd i ddod i'r ysgol i gael eu canlyniadau pe dymument. Ni fydd y canlyniadau ar gael i ddisgyblion blwyddyn 10 tan 10 o'r gloch y bore ar 22/07/13 er mwyn caniatáu i ni ddelio'n llawn gyda disgyblion blwyddyn 11 a'u hanghenion yn gyntaf. Bydd staff ar gael ar y dyddiau hyn i gynorthwyo ac i gynghori. Oherwydd bod gwaith sylweddol yn digwydd yn yr ysgol dros wyliau'r haf eto eleni gofynnaf i bawb fod yn ofalus wrth ddod ar dir yr ysgol ac i ddod i mewn i'r adeilad trwy'r brif fynedfa.

Felly hoffwn ddymuno haf hir, diogel a heulog i chi - ac edrychaf ymlaen yn arw i weld y disgyblion i gyd yn ôl gyda ni yn Ysgol Tryfan ar y 4ydd o Fedi.

Yn gywir

Gwyn Tudur
Pennaeth



Ysgol Tryfan
Lôn Powys, Bangor, Gwynedd. LL57 2TU
☎ 01248 352 633 ☎ 01248 361 264
pennaeth@tryfan.gwynedd.sch.uk www.ysgoltryfan.org

Pennaeth/Headteacher: Gwyn Tudur

